



Deddf Cynllunio 2008 – adran 61 ac adran 65

Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet (EN070007)

Penodi Awdurdod Archwilio

Derbyniwyd y cais uchod ar gyfer ei archwilio ar 31 Hydref 2022. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cadarnhad o'r Awdurdod Archwilio sydd, ar **17 Ionawr 2023**, wedi'i benodi gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan bwerau dirprwyedig, i archwilio'r cais.

Dewis cychwynnol o Banel neu un unigolyn a benodwyd

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ystyried Canllawiau¹ y llywodraeth sy'n amlygu'r meini prawf sy'n berthnasol i benodi Awdurdod Archwilio, ac mae wedi penderfynu, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig, y dylai'r cais gael ei archwilio gan Banel o ddau unigolyn y gellid eu penodi.

Penodi aelod ac aelod arweiniol y Panel

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ystyried y set sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer aelodau'r Panel ac addasrwydd ar gyfer arwain y Panel, ac mae wedi penderfynu, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig, penodi Christopher Butler fel Aelod Arweiniol o'r Awdurdod Archwilio, a Matthew Shrigley fel aelod o'r Awdurdod Archwilio.

Gwneir y penodiadau hyn yn unol â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau yr Arolygiaeth Gynllunio.

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Gwnaed y penderfyniad hwn gan swyddogion ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o dan bwerau dirprwyedig

¹ [Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar archwilio ceisiadau am ganiatâd datblygu](#) (Mawrth 2015)